O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 1469 (Cy. 174)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Holywell Road i Lower Monk Street, y Fenni, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2011

Gwnaed *9 Mehefin 2011*

Yn dod i rym *19 Mehefin 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Rhaglan – Llanymddyfri (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Mehefin 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Holywell Road i Lower Monk Street, y Fenni, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2011.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn, neu mewn cysylltiad â'r gwaith hwnnw, neu unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 19 Mehefin 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A40 yn y Fenni yn Sir Fynwy sy'n ymestyn o'i chyfffordd â Holywell Road i'w chyffordd â Lower Monk Street.